# Hiwmor dieithr heddiw

## gan DEWI WILLIAMS

TROS Y blynyddoedd cafwyd cyfeiriadau yn *Y Casglwr* at Ellis Owen Ellis, Bryn Coch, Abererch a'i luniau. Cynhwyswyd ei hunan bortread mewn erthygl gan Iwan Meical Jones yn rhifyn Awst 1979, a damcanodd Huw Williams yn rhifyn Awst 1980 y gallai ei gampwaith diflanedig 'Oriel y Beirdd' fod yn yr America fel sawl darn arall o'n hetifeddiaeth.

Yn y 'Punch Cymraeg', y cylchgrawn anturus a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lewis Jones ac Evan Jones rhwng 1858-64 gwelir ychydig o gartwnau'r arlunydd dawnus fu farw yn 1861. Mae y mwyafrif wedi eu harwyddo ac i'w canfod yn rhifynnau 1858-59.

Yn eu mysg y mae portread Ellis o gwymp y darlithydd dirwestol Robyn Ddu Eryri a adgynhyrchwyd gan Huw Walters yn ei erthygl yn rhifyn Awst 1980.

Nid yw testun rhai o'r cartwnau yn rhy eglur erbyn heddiw. Rhoddir Wesleaid Bangor tan yr ordd oherwydd, fe ymddengys, eu hagwedd ansicr at ddirwestiaeth ac ymosodiad ar y cyfuniad o ormes gwleidyddol ac eglwysig y cyfnod yw "Y Sgriw a'r Gannwyll".


Thema cartŵn arall yw dylanwad Iolo Morganwg ar Ab Ithel ym "mhastai fawr Llangollen", sef eisteddfod 1858.

Yn un o rifynnau'r cylchgrawn cyhoeddir llythyr blodeuog gan Ellis at Mr. Punch yn cynnig ei osod "yn y lle mwyaf ardderchog yn yr oriel". Gwrthododd y gwron oherwydd i'r arlunydd "adael i bob math o fychanolion di bwys wneyd eu hymddangosiad ynddi". Tybiaf fod hyn yn enghraifft dda o safon hiwmor y cylchgrawn.

Yn 1862 bu Lewis Jones yn archwilio tiriogaeth Patagonia ar gyfer yr ymfudwyr cyntaf. Onid yw'n hen bryd i ni drefnu archwiliad arall yng nghyfandir America am yr Oriel aeth ar ddifancoll? Fel arweinydd awgrymaf fy nghyfaill yr arch chwilotwr Dafydd Guto. Os gall rhywun ffureta'n llwyddiannus i ddirgelion y darlun, Dafydd yw hwnnw.

4 Y PUNCH CYMRAEG. Mehefin 25

DY(M)CHWELIAD YR IUDDEWON.




ANGLADD Y GENADAETH IUDDEWIG.

*(Parhad o'n rhifyn diweddaf).*

"Fel y dywedason y bu" Cyflawnwyd proffwydoliaeth Mr P i'r llythyren, oblegid ar Wyl y Pentecost (Sasiwn Lerpwl) claddwyd y Genadaeth Iuddewig a'i gwyneb yn isaf, fel pob peth arall y bydd ofnad iddo *drwblo* mewn amser dyfodol.

Cafodd ein celfyddydwr lawn olwg ar yr orymdaith, ac felly y mae cywirdeb ei ddarlun yn gwneyd i fyny am yr oediad. Oddi wrth yr adeilad sydd ar y llaw ddehau gwelir mai pan oedd yr angladd yn myned heibio yr *Amphitheatre* y cymerwyd y darlun. A rhywle rhwng y lle hwnw a'r *fish market* y cyfarfyddwyd hwy gan Gyfiawnder a'i chlorian yn ei llaw yn dysgwyl cael eu pwyso a chan wybod y byddai eisieu cymhorth rhywun daeth yr Hen Fachgen Du yno i droi pen y glorian pan fyddai "56's chwareu teg" yn cael eu dodi yn y glorian. Ond aeth yr Hen Gorff heibio, gan ddal y chwip fel pob peth arall yn ei law chwith, heb gymeryd arno eu gweled: yn unig rhoddes y mochyn roch o "foreu da" i'w gydnabod Du wrth fyned heibio.

Nid yw Mr P. am fanylu pa sut y bu eto, oblegid os oes ar rywun eisieu gwybod edryched i'n rhifyn diweddaf. Yn unig y mae iddo air o barthed y bachgen amddifad a adawodd Mrs Genadaeth ar ei hol, a hyny ydyw,—Ei ganmol am y modd y mae wedi ... cwiredd ei elynion. Mae'n wir mai ei gyrhaedd ef oedd ... ei fam, a thybid ond lladd hono nas gallai yntau fyw wedyn. Drwg gan Mr. P weled fod y fam wedi gorfmyned yn aberth yn herwydd y mab, ond da gan ei galon weled fgobaith i'r bachgen gael eithaf chwareu teg trwy fod caredigion fam yn penderfynu ei amddiffyn a'i gynal ar eu traul eu hunai. Ond cymaint yw gelyniaeth calon henaduriaid henaduriaeth y Henadur, fel y mae Mr P yn dysgwyl y bydd yn y 'Drysorfa nesaf "*Vagrancy Act*" newydd wedi ei phasio ganddynt, ac y bydd Attorney General James Donne yn cael cyfarwyddiadau i gymeryd *habæus corpus* allan yn erbyn y bachgen amddifad, o dan yr act newydd, i'w ymlid allan o'u tiriogaethau hwy.

CHWITHIG.—Er mor naturiol yw i ddyn ddywedyd geiriau enllibaidd wrth yfed a meddwi, efe a gaiff ei fawr feio am ei ddyhirwch; ond er mor annaturiol yw i weinidog yr efengyl enllibio ei well mewn newyddiadur, efe a gaiff ei ganmol am ei ddawn orhyawdlaidd!

GWR IEUANGC.—Yn rhestr marwolaethau yn yr Herald bach gwelir "Mehefin 11, yn 8 mlwydd oed, D—, mab T— R—," "Mai 16, Mrs J— J—, ei wraig.——" Ni fynegir i ni oed y wraig, ond am y gwr sicrheir ni mai *wyth* oed yn unig oedd ef.

GRYM CREFYDDAETH CYMRU.—Ychydig o'r meddwon, amryw o'r beirdd, a gormod o'r pregethwyr.

*Dalen o'r PUNCH CYMRAEG 1859. Y llun gan Ellis Bryn Coch. Ond faint o'r ysgrifennu a'r darlun sy'n taro cloch heddiw?*

*YN EISIAU*

*Thomas Roberts (Llwynhudol):* ***The Welsh interpreter****, Llundain, Samuel Leigh, 1831.*

*Howard Godfrey, 7 South Parade, Croft on Tees, Darlington, Co. Durham, DL2 2SN.*

*AR WERTH*

*Ellis, T.P:* ***Dolgellau & Llanelltyd****. Welsh Outlook Press, Y Drenewydd, 1928. (Dim S/L): £23.50.*

*Inglis-Jones, Elizabeth:* ***Peacocks in Paradise****. Faber & Faber, Llundain 1950. Argraffiad Cyntaf (Dim S/L): £12.50.*

*Jones, D. Daven:* ***The Early Cymry and their Church****. Spurell & Son, Caerfyrddin, 1910. Llofnod yr Awdur (Staen tamprwydd ar y clawr): £4.50.*

*Price, Fred S:* ***History of Llansawel****, Abertawe, 1898: £19.50.*

*Lowe, W. Bezant:* ***The Heart of Northern Wales****, Cyf 1. Argraffiad tanysgrifiol: £25.*

*J. Meurig Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Dyfed SY25 6AL.*

*YN EISIAU*

*Unrhyw lyfrau sy'n trafod hanes Sir Faesyfed — ardal Rhaeadr Gwy yn arbennig.*

*Robert Lewis, Erw Las, Nant y Gader, Dolgellau, Gwynedd. Ffôn: 0341 422 234.*


**Gwasg Gwynedd**
Cibyn Caernarfon
Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486
Argraffwyr a Chyhoeddwyr